# Blynyddoedd Cynnar Cymru

## Maniffesto Etholiad 2026

Ffordd Gymreig Ymlaen ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar: Blaenoriaethau Polisi ar gyfer y Senedd Nesaf





David Dallimore
Cadeirydd



David Goodger
Prif Swyddog
Gweithredol

# Neges gan ein Cadeirydd a Prif Swyddog Gweithredol

**Rydym yn falch o lansio Maniffesto ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer etholiadau'r Senedd 2026.**

Blynyddoedd Cynnar Cymru yw'r prif sefydliad sy'n cynrychioli darparwyr ac yn ymgyrchu am well gwasanaethau i'r plant ieuengaf a'u teuluoedd yng Nghymru. Mae ein Maniffesto ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar wedi'i anelu at bleidiau gwleidyddol ac Aelodau Senedd uchelgeisiol i ganolbwyntio sylw ac ymdrechion ar wella cyfleoedd i bob baban a phlentyn ifanc.

Mae tystiolaeth ryngwladol gref bod y blynyddoedd cynnar (0 i 7 oed) yn gosod y sylfeini ar gyfer datblygiad plant gyda chysylltiadau cryf â chanlyniadau iechyd, addysgol, cymdeithasol ac economaidd yn ystod oedolyniaeth[1]. Ond nid yw plant yng Nghymru bob amser yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Dros y ddau dymor diwethaf yn y Senedd, bu cynnydd cyson ym mholisi Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru. Rydym wedi gweld ymrwymiadau i ddarparu cynnig cyffredinol i bob plentyn 2 oed[2], gweithredu'r Cynnig Gofal Plant Gymru[3], Cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer leoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir[4], a lansiad Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar[5].

Ynghyd â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i Gynllun 10 Mlynedd ar gyfer y Gweithlu Gofal Plant (wedi'i adnewyddu ym mis Gorffennaf 2024),[6] Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr[7], a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.[8]

Rydym yn cydnabod bod llawer wedi'i gyflawni ac mae gennym falchder o'n hanes o weithio ar draws y sbectrwm gwleidyddol a Llywodraeth Cymru i gefnogi a dylanwadu ar newid.

Ein gweledigaeth yw am gyfer ecosystem neu wasanaethau bywiog a gweithwyr proffesiynol sy'n caniatáu i bob plentyn yng Nghymru chwarae, dysgu a ffynnu, a chael cymorth i wireddu eu potensial.

**Er mwyn i ni wireddu'r weledigaeth hon, mae angen i ni adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud, ond gyda mwy fyth o ymrwymiad i wella'r sector, y system, a'r amodau ar gyfer pob baban a phlentyn.**

Bydd angen i'r Senedd nesaf a Llywodraeth nesaf Cymru edrych i'r dyfodol ac ymrwymo i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol.

Ein gwahoddiad i chi yw i gweithio gyda ni. Gyda'i gilydd, byddai'r argymhellion polisi canlynol yn gwneud gwahaniaeth enfawr ac yn arwain at fanteision hirdymor i'r sector, i blant a theuluoedd, ac i ddyfodol Cymru.

Os hoffech drafod unrhyw un o'r argymhellion neu gael sgwrs fwy cyffredinol am gefnogi plant yn y blynyddoedd cynnar, byddem yn falch iawn o glywed gennych.

*Dr David Dalimore*
Cadeirydd Blynyddoedd Cynnar Cymru sy'n cynrychioli'r Bwrdd a'n haelodau

*David Goodger*
Prif Swyddog Gweithredol Blynyddoedd Cynnar Cymru

1 https://heckmanequation.org/
2 https://www.gov.wales/flying-start-childcare-exceeds-expansion-targets-wales
3 https://www.gov.wales/childcare-offer-for-wales-campaign
4 https://hwb.gov.wales/api/storage/b1801d78-38c3-4320-9818-d9996c21aef8/220914-a-curriculum-for-funded-non-maintained-nursery-settings.pdf
5 https://www.gov.wales/early-childhood-play-learning-and-care-ecplc
6 https://www.gov.wales/written-statement-review-and-refresh-10-year-childcare-play-and-early-years-workforce-plan
7 https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/cymraeg-2050-welsh-language-strategy.pdf
8 https://www.gov.wales/anti-racist-wales-action-plan-2024-update-html



# Ffordd Gymreig Ymlaen ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar: Blaenoriaethau Polisi ar gyfer y Senedd Nesaf



Mae'r ddogfen hon yn amlinellu cyfres o argymhellion polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn ehangu gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Gan dynnu ar ymchwil, ymgysylltiad â'r sector, a phrofiadau byw teuluoedd ac ymarferwyr, rydym yn cynnig fframwaith strategol i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Mae ein hargymhellion yn canolbwyntio ar ddiwygiadau statudol, ddatblygiad y gweithlu, cymorth i rieni, ac ymarfer cynhwysol, gyda phwyslais arbennig ar y 1,000 diwrnod cyntaf o fywyd.

Mae’r ddogfen hon, ynghyd â Bil Bob Plentyn – A law for every child[9], a’r ddogfen Y Dechrau Gorau Mewn Bywyd: Mae’r Fframwaith Gweithredu[10] ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, yn cynnig llwybr tuag at brofiad blynyddoedd cynnar hyd yn oed gwell i blant, eu teuluoedd a’r gweithlu yng Nghymru. Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn falch o gefnogi’r ddwy ddogfen ochr yn ochr â’r argymhellion yn ein maniffesto.

9 https://issuu.com/childreninwales/docs/bil_pob_plentyn_-_a_law_for_every_child?fr=sMjFkZDg0Mjg0OTI
10 https://icc.gig.cymru/newyddion1/lleisiau-rhieni-wrth-wraidd-fframwaith-gweithredu-ar-gyfer-y-blynyddoedd-cynnar-newydd/



## 1 Cydnabyddiaeth Statudol o Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

**Argymhelliad**

Gwneud Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn gyfrifoldeb statudol ar draws pob lleoliad blynyddoedd cynnar.

**Rhesymeg**

Mae Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yn darparu fframwaith cyfannol ar gyfer gofal, chwarae a dysgu plant rhwng 0 a 5 oed. Mae'n cyd-fynd â'r CCUHP ac yn hyrwyddo tegwch ar draws lleoliadau amrywiol. Byddai mabwysiadu statudol yn sicrhau cysondeb, ansawdd ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar blant ledled Cymru.

## 2 Diwygio Absenoldeb a Chymorth i Rieni

**Argymhelliad**

Cynyddu hyd a chymorth ariannol ar gyfer absenoldeb mamolaeth a thadolaeth i gyd-fynd â dechrau darpariaeth gofal plant wedi'i ariannu at ddwy oed.

**Rhesymeg**

Mae rhesymau cymdeithasol, economaidd ac iechyd cryf am gynyddu hyd a chymorth ariannol ar gyfer absenoldeb mamolaeth a thadolaeth. Mae cyfnod hirach yn caniatáu i rieni ffurfio bondiau emosiynol cryfach gyda'u babanod newydd-anedig, sy'n hanfodol ar gyfer datblygiad cynnar; mae cyfnod mamolaeth estynedig yn cefnogi bwydo ar y fron, sydd wedi profi manteision iechyd i'r fam a'r plentyn; ac mae astudiaethau'n dangos bod cyfnod famolaeth/tadolaeth â chyflog yn gysylltiedig â gostyngiadau mewn marwolaeth babanod.

## 3 Cyllid Gofal Plant Cynaliadwy

**Argymhelliad**

Cynyddu'r gyfradd cyllid ar gyfer Cynnig Gofal Plant y Llywodraeth dros y £6.40 yr awr bresennol.

**Rhesymeg**

Nid yw'r cyllid presennol i leoliadau blynyddoedd cynnar i ddarparu Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu costau cynyddol y sector. Byddai cyfradd uwch yn cefnogi cadw staff, darpariaeth o ansawdd, a chynaliadwyedd hirdymor lleoliadau blynyddoedd cynnar.

## 4 Cynnig Gofal Plant Hygyrch a Symlach

**Argymhelliad**

Symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer rhieni a gofalwyr am fynediad at ofal plant a ariennir.

**Rhesymeg**

Mae cymhlethdod yn y system bresennol yn rhwystr i ddefnydd. Byddai symleiddio yn gwella mynediad, yn enwedig i deuluoedd difreintiedig, ac yn cefnogi uchelgeisiau gofal plant cyffredinol Llywodraeth Cymru.





## 5 Cryfhau Gwasanaethau Cymorth Rhieni

**Argymhelliad**

Ehangu mynediad at gyngor rhianta a chymorth datblygiadol o feichiogrwydd ymlaen.

**Rhesymeg**

Mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol. Mae darparu cymorth hygyrch, cymunedol yn gwella iechyd a datblygiad plant, a hyder rhieni.

## 6 Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd Gweinidogol

**Argymhelliad**

Penodi Gweinidog ymroddedig dros Fabanod a Phlant.

**Rhesymeg**

Byddai rôl Weinidogol yn sicrhau bod materion blynyddoedd cynnar yn cael eu blaenoriaethu wrth lunio polisïau a bod lleisiau plant yn cael eu cynrychioli ar y lefel uchaf.

## 7 Diwygio Terminoleg

### Argymhelliad

Ailenwi'r Comisiynydd Plant i'r Comisiynydd Babanod a Phlant.

### Rhesymeg

Mae'r newid hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd y 1,000 diwrnod cyntaf ac yn cryfhau gwelededd hawliau babanod mewn disgwrs polisi.

## 8 Symudiad a Datblygiad Corfforol

### Argymhelliad

Ymgorffori symudiad a gweithgarwch corfforol mewn deddfwriaeth blynyddoedd cynnar.

### Rhesymeg

Mae gweithgarwch corfforol yn cefnogi datblygiad modur, gwybyddol a chymdeithasol. Mae mynd i'r afael ag ymddygiad eisteddog yn hanfodol ar gyfer canlyniadau iechyd hirdymor.





## 9 Ymarfer Cynhwysol a Gwrth-hiliol

### Argymhelliad

Mandadu dulliau gwrth-hiliol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

### Rhesymeg

Mae ymarfer cynhwysol yn cefnogi cyfleoedd cyfartal ac ymatebol diwylliannol. Mae'n cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o Gymru wrth-hiliol erbyn 2030.

## 10 Canolbwyntio ar y 1.000 Diwrnod Cyntaf

### Argymhelliad

Cynyddu cymorth i deuluoedd yn ystod beichiogrwydd a'r ddwy flynedd gyntaf o fywyd.

### Rhesymeg

Mae'r cyfnod hwn yn sylfaenol ar gyfer datblygiad gydol oes. Mae buddsoddi mewn cymorth cynnar yn cynhyrchu enillion cymdeithasol ac economaidd sylweddol.

## 11 Datblygu'r Gweithlu

**Argymhelliad**

Gwella cyflog, amodau, a llwybrau gyrfa ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd cynnar.

**Rhesymeg**

Mae'r sector yn wynebu trosiant uchel a chyflog isel. Mae buddsoddi yn y gweithlu yn allweddol i sicrhau ansawdd a pharhad mewn gofal.

## 12 Hyrwyddo'r Gymraeg

**Argymhelliad**

Cynyddu cyllid i sefydliadau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

**Rhesymeg**

Mae amlygiad cynnar i'r Gymraeg yn cefnogi caffael iaith a hunaniaeth ddiwylliannol. Gall cyllid targedig bontio'r bwlch i deuluoedd di-gymraeg.





## 13 Cymarebau Gofal Plant

**Argymhelliad**

Deddfu ar gyfer cymarebau staff-i-blant isel.

**Rhesymeg**

Mae cymarebau is mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yn galluogi gofal personol a gwell canlyniadau datblygiadol. Mae mesurau arbed costau sy'n cynyddu cymarebau yn risg o newidio ansawdd.

## 14 Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

**Argymhellion**

- Cyflymu'r broses atgyfeirio ar gyfer plant bach ag ADY.
- Ariannu hyfforddiant staff a lleihau cymarebau mewn lleoliadau ADY.
- Cynyddu capasiti ymwelwyr iechyd a chymorth gan awdurdodau lleol.

**Rhesymeg**

Mae canfod a gweithredu'n gynnar yn hollbwysig. Mae oedi a phrinder adnoddau presennol yn rhwystro cymorth effeithiol i blant ag ADY.

**Gweithio gyda'r sector ehangach:**

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru hefyd yn falch o gefnogi **Bil Bob Plentyn**[11], a grëwyd gan Jane Dodds a'r Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Theuluoedd, ynghyd â'r **Y Dechrau Gorau mewn Bywyd: Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar**[12] gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Hoffem hefyd annog y defnydd o fframwaith **Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar**[13] Llywodraeth Cymru sy'n helpu i lywio arferion blynyddoedd cynnar.

11 Bil Pob Plentyn | A Law for Every Child (Gorffennaf 2025) wedi'i ddatblygu gan Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Blant a Theuluoedd a Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Blant yn Ein Gofal. https://issuu.com/childreninwales/docs/bil_pob_plentyn_-_a_law_for_every_child?fr=sMjFkZDg0Mjg0OTI

12 Y Dechrau Gorau mewn Bywyd: Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar, a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 1 Gorffennaf 2025 ochr yn ochr ag adroddiad Mewnwelediadau Rhieni, yn amlinellu dull newydd o wella cymorth i deuluoedd â babanod a phlant ifanc. "Mae'n cyfuno arbenigedd gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar â phrofiadau byw rhieni a gofalwyr i egluro'n glir beth mae'n ei olygu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru, ac yn cyflwyno gweledigaeth gytûn o sut y gall y system blynyddoedd cynnar wireddu'r nod hwn. https://icc.gig.cymru/newyddion1/lleisiau-rhieni-wrth-wraidd-fframwaith-gweithredu-ar-gyfer-y-blynyddoedd-cynnar-newydd/

13 Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yw ddull integredig o addysg a gofal plant i blant 0-5 oed, sy'n canolbwyntio ar ddatblygiad cyfannol i gefnogi lles a dysgu gydol oes, gan alinio â Chwricwlwm Cymru a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.. https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/chwarae-dysgu-a-gofal-plentyndod-cynnar-yng-nghymru/




**Cyhoeddwyd Medi 2025**

02920 451242 info@earlyyears.wales earlyyears.wales / blynyddoeddcynnar.cymru

Blynyddoedd Cynnar Cymru 2018 / Early Years Wales 2018. Gofrestredi yn Cymru / Registered in Wales.
Swyddfa Gofrestredig: Uned 9, Centre Court, Trefforest, Rhondda Cynon Taf CF37 5YR /
Registered Office: Unit 9, Centre Court, Treforest, Rhondda Cynon Taff CF37 5YR
Cwmni cyfyngedig trwy warant / Company limited by guarantee 3164233. Elusen / Charity 1056381

Cynnig Cymraeg